Mae Tess yn artist amlddisgyblaethol sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Mae eu gwaith yn edrych i ddatgelu'r cyfuniadau di-derfyn o ffyrdd y gallwn ailgysylltu â ni'n hunain, ein cyrff a'r gofodau yr ydym yn byw ynddynt, a sut y gall hyn ddatblygu perthnasoedd dyfnach, mwy greddfol.

Maen nhw'n defnyddio recordiadau maes, dogfennaeth symudiad corfforol ac ysgrifennu rhad ac am ddim wedi'u hysbrydoli gan ymweliadau safle, er mwyn helpu i wireddu'r gwaith.

Tess is a multidisciplinary artist living and working in Wales. Their work looks to uncover the limitless combinations of ways we can reconnect with ourselves, our bodies and the spaces we inhabit, and how this can develop deeper, more intuitive relationships.

They use field recordings, documentation of physical movement and freeform writing inspired by site visits, to help realise the work.



'Field Performance'

# Imitating Architecture





Mae'r collage digidol hwn yn arddangos archwiliadau symud a rhyngweithiadau barddonol wedi'u recordio gyda siop adrannol Howells, gofod eiconig ym myd manwerthu, cymdeithasu a siopa yng Nghymru a gaeodd ei ddrysau yn ddiweddar ar ôl agor ym 1865. Nod y gwaith yw datgelu ochr dywyll cau siopau, newid perchnogaeth, a siopau'r stryd fawr yn dirwyn i ben. Mae'n codi cwestiynau ynghylch sut rydym yn dewis rhyngweithio â'r gofodau hyn a'r bobl sy'n eu cadw'n fyw yn ystod ein brwydr bresennol â chyfalafiaeth, yn enwedig o ystyried yr argyfwng hinsawdd a'n defnydd parhaus o ddeunyddiau nad ydynt yn para.

This digital collage showcases movement explorations and recorded poetic interactions with Howells department store, an iconic space in Welsh retail, socializing, and shopping that recently closed its doors after opening in 1865. The work aims to uncover the somber side of high street closures, changing ownership, and going into liquidation. It poses questions about how we choose to interact with these spaces and the people who keep them alive during our current capitalist struggle, particularly considering the climate emergency and our continuous consumption of materials that do not last.

Trwy symudiadau a myfyrdodau barddonol, mae gwaith Wood yn cynnig persbectif newydd ar sut y dylem ganfod y gofodau hyn. Trwy ymchwilio i'w hanes ac eistedd gyda nhw cyn cefnu arnynt am gyfnodau estynedig, mae'r artist yn amlygu pwysigrwydd cydnabod a diogelu arwyddocâd y gofodau hyn.


Through movement and poetic meditations, Wood's work offers a new perspective on how we should perceive these spaces. By delving into their histories and sitting with them before they are abandoned for extended periods, the artist highlights the importance of acknowledging and preserving the significance of these spaces.











Awyrlun 'James Howell & Co', 1925

Ffynhonnell: Archif House of Fraser ym Mhrifysgol Glasgow

Gyda chaniatâd Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Glasgow

'James Howell & Co' aerial view, 1925

Source: The House of Fraser Archive at the University of Glasgow

With permission of University of Glasgow Archives & Special Collections

# Cythrudd / Provocation



Beth sy'n digwydd pan fyddwn yn torri'n rhydd o'n tueddiadau cyfalafol ac yn cofleidio byw'n ystyriol? A all symudiad a barddoniaeth gynnig ffyrdd newydd o brofi a chysylltu â'n hamgylchedd, gan ein hysbrydoli i fyw'n fwy cynaliadwy ac ystyriol, ac i wrthsefyll temptasiwn diwylliant defnyddwyr?

What happens when we break free from our capitalist tendencies and embrace mindful living? Can movement and poetry offer new ways of experiencing and connecting with our surroundings, inspiring us to live more sustainably and mindfully, and to resist the temptation of consumer culture?

# Sahar Saki



Mae Sahar yn artist a dylunydd rhyngwladol arobryn o Iran, wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Mae hi wedi cael ei gwobrwyo gan UNESCO, Busnes Cymru, a Chyngor Celf Cymru, ac mae hefyd wedi gweithio gyda gwahanol sefydliadau a chanolfannau cymunedol fel Opera Cenedlaethol Cymru, Theatr y Sherman, Arcade Cardiff, Riverside Centre, Canolfan Gelfyddydau Neuadd Llanofor, Celfyddydau Iechyd Gwent, Crefft yn y Bae, Cyngor Caerdydd, a Made In Roath.

Mae Sahar yn defnyddio testun, caligraffeg, lliwiau bywiog beiddgar yn ei chelf ac yn cael ei hysbrydoli gan ei threftadaeth ddiwylliannol a phatrymau hen tra mae hi'n eu trawsnewid mewn iaith weledol gyfoes.

Sahar is an award-winning international artist and designer from Iran, based in Cardiff. She has been awarded by UNESCO, Business Wales, and Art Council of Wales, and has also worked with different organisation and community centres such as Welsh National Opera, Sherman Theatre, Arcade Cardiff, Riverside Centre, Llanover Hall Arts Centre, Gwent Arts in Health, Craft in the Bay, Cardiff Council, and Made In Roath.

Sahar uses text, calligraphy, bold vibrant colours in her design and gets inspired by her cultural heritage and old patterns while she is transforming them in contemporary visual language.



'Off The Wall' yn/at Oriel Mission Gallery

# Bazyaft



Defnyddiais y symbol rhyngwladol ar gyfer ailgylchu i wneud cyfres o bum cerdyn post yn defnyddio pum iaith - Perseg, Tsieinëeg, Hindi, Cymraeg a Thyrcceg. Yna argraffais 100 o gardiau a'u dosbarthu â llaw ar hyd Heol San Helen yn Abertawe.

Pan wnes i'r gwaith hwn, meddyliais am fy nhaid a nain oedd â buchesi mawr o fuchod, defaid a geifr. Roeddent yn byw yng ngorllewin Iran, yn hunangynhaliol, eu deiet yn seiliedig ar laeth, wyau a chigoedd, ac yn defnyddio pob rhan o'r anifail. Nid oedd unrhyw wastraff yn y cylch hwn. Rwy'n eu cofio'n troi croen y ddafad yn gynwysyddion mawr ar gyfer cynhyrchu kefir a menyf.

Unwaith, wrth rhannu'r atgof hwn gyda ffrind o'r gorllewin a oedd yn fegan, dangosais lun o'r cynhwysydd iddynt. Cawsant braw mawr gan y llun. Roeddwn wedi drysu'n lân gyda'i ymateb gan fy mod yn credu bod gan fy nhaid a nain ffordd gynaliadwy iawn o fyw ac felly'n gysylltiedig â natur.

Dywedir wrthym mai defnydd 'moesegol' yw ein hunig obaith. Mae gan bob diwylliant gwahanol safbwyntiau gwahanol a gall dysgu gan bawb gyfoethogi ein hatebion. Weithiau gall y rhai sy'n byw'n ddibris fod yn modelu bywyd gwirioneddol gynaliadwy.

I used the international symbol for recycling to make a series of 5 postcards using 5 languages - Persian, Chinese, Hindi, Welsh and Turkish. I hand delivered 100 of them along St Helens Road in Swansea.

When I made this work I thought of my grandparents who had big herds of cows, sheep and goats. They lived in the west of Iran, were self-sufficient, their diet based on dairy, eggs and meats and using every part of the animal. There was no waste in this cycle. I remember them turning the sheep's skin into big containers for producing kefir and butter.

Once, I shared this memory with a western friend who was vegan, showing them a photo of the container. They were annoyed by the photo. I was really surprised by their reaction as I believed my grandparents had a very sustainable way of living and so connected to nature.

We are told that 'ethical' consumption is our only hope. Every different culture has different perspectives and learning from all can enrich our solutions. Sometimes those who live lightly can be modeling a truly sustainable life.





حضرتی بہ نام دور ستر جو بیدار  
وہی چھتری را دور می اندازیم

باید جایی بروں۔

“Nid oes unrhyw beth fel ‘mynd i ffwrdd’. Pan fyddwn yn taflu unrhywbeth i ffwrdd, mae’n rhaid iddo fynd i rywle.”

“There is no such thing as ‘away’. When we throw anything away it must go somewhere.”

- Annie Leonard





# Cythrudd / Provocation



Mae gan bob diwylliant gwahanol safbwyntiau gwahanol a gall dysgu gan bawb gyfoethogi ein hatebion. Cael sgwrs, gwneud cysylltiad â diwylliant gwahanol a'u perthynas â'r blaned heb farnu nac ymyleiddio.

Every different culture has different perspectives and learning from all can enrich our solutions. Have a conversation, make a connection with a different culture and their relationship to the planet without judgement or marginalisation.

## **Pennod 3:**

**Bydd rheoli tir yn gynaliadwy yn helpu cymunedau i brynu bwyd lleol a theimlo eu bod yn perthyn i dir Cymru.**

## **Chapter 3:**

**Sustainable land management helps communities buy local food and feel connected to the Welsh land.**

Mae Cynulliad y Dinasyddion wedi nodi:

**“Mae angen i’r llywodraeth ar bob lefel helpu i wneud ffermio’n fwy cynaliadwy a gwneud bwyd lleol yn fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu pobl i brynu mwy o fwyd lleol a chynaliadwy ac adfer byd natur.”**

Tir, iaith, diwylliant. Mae ein perthynas â ffermio ac amaethyddiaeth mor ddwfn â’n gwreiddiau felly sut ydyn ni’n cynnal yr hyn sy’n hunaniaeth sylfaenol wrth wneud lle i bob bod dynol ac an-ddynol ffynnu? Mewn ymateb, mae Eddie Ladd yn myfyrio ar fywyd ar y tir a’r coed sy’n ei fframio, mae Iestyn Tyne yn olrhain trwy ei hanes personol i chwilio am lif olyniaeth ym myd ffermio, ac mae Marva Jackson Lord yn datgelu ein hobsesiwn â diwylliant bwyd sy’n mynnu “unrhyw beth unrhyw bryd”.

The Citizens Assembly has spoken:

**“All levels of government need to help make farming more sustainable and local food affordable. This will help people buy more local, sustainable food and restore nature.”**

Land, language, culture. Our relationship to farming and agriculture is as deep as our roots so how do we maintain what is fundamental identity while making space for all human and non-human beings to thrive? In response, Eddie Ladd meditates on a life in the land and the trees that frame it, Iestyn Tyne tracks back through his personal history to look for the flow of succession in farming and Marva Jackson Lord cuts open our obsession with the “anything anytime” food culture.

# Eddie Ladd



'Ffrwydrad'

Mae Eddie wedi bod yn berfformiwr theatr gorfforol ers oes pys. Mae'n berfformiwr theatre gorfforol, yn gyfarwyddwr symud ac arweinydd gwaith yn y gymuned.

Eddie has spent at least thirty-five golden years in showbusiness. She is a physical theatre performer, a movement director and leads community performance.

Cyfuna goreograffi, sgript a thechnoleg o bob math yn ei darnau, sydd weithau mewn theatrau a bryd arall ar safleoedd arbennig. Mae'r themâu yn olrhain ei milltir sgwâr a'i le yn y byd - felly aed â'r cynyrchiadau ar daith ledled hwnnw, tra fis Mawrth y llynedd teithiodd Geredigion gyda fan hufen iâ yn ymweld â llefydd yr enwyd emyn-donau ar eu hôl.

She combines choreography, script and technology of all kinds in her productions, which are staged both in theatres and on specific sites. Their themes deal with her square mile and its place in the world - so these productions have toured that world whilst last year she travelled the length of Ceredigion with an ice-cream van that visited places with hymn tunes named after them.

# Boed Coed / Let there be trees



Cafodd Boed Coed ei ffilmio ar dir Maesglas, y ffarm lle ces i fy magu a lle rwy'n byw nawr. Rwy'n cerdded y tri chae sydd yn weddill o ffarm 40 erw ac yn ystyried yr hyn ddylswn ei wneud fel bod 'da hi ddyfodol gweddol. Fe allwn ddi-ddofi'r tir (re-wild) ac rwy'n treulio cyfnod o'r ffilm yn mudffromi yn erbyn y dadleuon o blaid plannu coed. Ac wrth gwrs, rwy'n dadlau yn eu herbyn ar sail emosiwn, wrth gerdded tir rwy'i wedi ei adnabod ers fy mhentyndod. Rwy'n ddawnsiwr ac yn ffarmwr ond rhaid cyfaddef fod yna lawer mwy o lewyrch ar y danso. Erbyn y diwedd, mae gennyf well syniad o sut gellid di-ddofi un o'r caeau o leiaf ac yn crybwyll, wrth orwedd mewn bath yr oedd ein gwartheg arfer yfed ohono, fod yna bobl ledled y byd yn dioddef o effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn barod ac y bod rhaid i fi wneud rhywbeth.

Boed Coed was filmed on Maesglas land, the farm where I grew up and where I now live. I walk the three remaining fields of a 40 acre farm and consider what I should do to ensure that it has a fair future. We can rewild the land, and I spend a period during the film mutely raging against the arguments in favour of planting trees. And of course, I argue against them based on emotion, while walking land that I've known since childhood. I am a dancer and a farmer, but I must admit that the dancing is much more prosperous. By the end, I have a better idea of how at least one of the fields could be rewilded and mention, whilst lying in a bath that our cattle used to drink from, that there are people all over the world already suffering from the effects of the climate crisis and that I must do something.







# Cythrudd / Provocation



## Y fyfyrddod

Cyfarwyddiadau i hwyluso myfyrio am hynt ein planed, fel ag y mae yn *Boed Coed*.

### Yr offer

Wellingtons  
Cot law  
Dillad cyffredin  
*Wetsuit*

### Y safle

Stafell ymolchi gyda bath ynddi

### Y camau

Gwisgwch yr offer  
amdanoch, *wetsuit* yn  
gyntaf  
Rhedwch ddŵr oer i'r bath  
tuag at ei hanner  
Camwch i'r bath  
Gollyngwch eich hun yn  
araf i'r dŵr  
Myfyriwch ar yr argyfwng  
hinsawdd  
Myfyriwch ar yr hyn y  
gallwch chi ei wneud

## The meditation

Instructions to facilitate meditating on the future of our planet, as seen in *Boed Coed*.

### The kit

Wellingtons  
Rain coat  
Ordinary clothes  
Wetsuit

### The location

A bathroom that has a bath

### The steps

Put on the kit, wetsuit first  
Half-fill the bath with cold  
water  
Step into the bath  
Lower yourself slowly into  
the water  
Mediate on the climate  
crisis  
Meditate on what you can  
do

# Iestyn Tyne




Magwyd Iestyn Tyne ym Moduan, Pen Llŷn, ac mae bellach yn byw yng Nghaernarfon gyda'i deulu. Mae'n gyd-sylfaenydd a chyd-olygydd Cyhoeddiadau'r Stamp, tŷ cyhoeddi annibynnol sy'n rhoi llwyfan i leisiau newydd sy'n ysgrifennu yn y Gymraeg.

Ar y cyd â Darren Chetty, Grug Muse a Hanan Issa, roedd yn olygydd Welsh (*Plural*): *Essays on the Future of Wales* (Repeater Books, 2022), a chyrrhaeddodd ei gasgliad diweddaraf o farddoniaeth, *Stafelloedd Amhenodol* (2021), restr fer gwobrau Llyfr y Flwyddyn 2022. Mae llawer o'i waith yn archwilio cyflwr y gymuned, y cynefin a'r byd o'i gwmpas, a sut y mae elfennau gwahanol o fewn y gofodau hynny yn plethu i'w gilydd wrth i ni symud drwyddynt.

Iestyn Tyne grew up in Boduan, Llŷn Peninsula, and now lives in Caernarfon with his family. He is co-founder and co-editor of Cyhoeddiadau'r Stamp, an independent publishing house which provides a platform for new voices writing in Welsh.

In collaboration with Darren Chetty, Heather Muse and Hanan Issa, he was editor of Welsh (*Plural*): *Essays on the Future of Wales* (Repeater Books, 2022), and his latest collection of poetry, *Stafelloedd Amhenodol*, was shortlisted for the 2022 Book of the Year awards. Much of his work explores the state of the community, the habitat and the world around it, and how there are different elements within those spaces weaving into each other as we move through them.



'Cofrodd' rhan o / part of 'Pererindod'





Fel mab fferm, dwi'n ymwybodol iawn o'r ymdeimlad cryf o olyniaeth sy'n perthyn i weithio'r tir, y tensiwn sy'n gallu codi o fewn teuluoedd a chymunedau a'r heriau sy'n wynebu cenhedlaeth newydd a'u syniad newydd. Mae bywyd yn symud ar gyflymder gwahanol i wahanol rannau o ecosystem y fferm, a'r coed yw'r pethau byw hynaf, sydd wedi tystio i'r mwyaf o fynd a dod dros gyfnod eu hoes. Yn 'Llif', dwi'n defnyddio'r profiad cyfarwydd o fynd allan yn fore i ddelio gyda choeden sydd wedi disgyn dros nos, a honno wedi dod i lawr ar ffin y fferm gan fylchu wal gerrig a godwyd gan rai o ragflaenwyr y tad a'r mab yn y gerdd.

As a farmer's son, I'm very aware of the strong sense of succession around working the land, the tensions that can arise within families and communities and the challenges facing a new generation and their new ideas. Life moves at a different pace for different parts of the farm's ecosystem, and the trees are the oldest living things, and have borne witness to the most coming and going during their time. In 'Llif' ('flow' and also 'saw'), I use the familiar experience of going out in the morning to deal with a tree that's fallen overnight. This particular tree has come down on the farm boundary, demolishing part of a stone wall built by forebears of the father and son in this poem.





Ar y ffin rhwng hwn a'r ffarm nesa un noson ddrycinog,  
gynddeiriog, ddu,  
hen goeden a godir yn rhydd o'i gwreiddiau,  
rhubanir hyder ei bonion a hi, gry gynnu, a gragenir  
bob sut, y rheibus wynt a rwyga wrth ei brigau  
a chwydu darnau o'i chadernid yn y gwrychoedd bysedd-  
gwrachod...

yna daw'r mab a'i dad  
yn blygeiniol, gan ddidoli'u geiriau prin fel gogri pridd,  
a sawr yr holl bethau sydd heb eu dweud fel beudai Awst.

am y cae hwn mae co hir  
y tad yn gadwyn ferw o farw ac o fyw  
mae fel y bedd, ond mae'i feddwl  
yn un llif o eiriau anllafarog

dyna aberth oedd dod i adnabod pob chwarter erw  
fel rhychau a phantiau fy nghorff fy hun;  
a dyna fraint wedyn fu'r antur  
o roi 'nôl â rhawiau 'nwylo  
rannau o'm hun yn y grynnau moel.

pan fydd y darth ar gefnau'r gwartheg  
yn y boreau oer sy'n breuo'r wal  
rhwng y byd hwn ac annwn, ennyd,  
mi welaf rith ar ymylon  
y cae o aeafau nad wyt ti'n eu cofio:  
yma, gwyrtais dros bob cam o gariad,  
c'weirio fesul carreg dro ar ôl tro y tir hwn

ac heddiw fe donna'r pridd dan yr arad  
fel menyn, fel mawnog duaf daear.





ni fu ymweld ers gaeafau mawr; darfu oedau dirifedi'r  
rhai ar f'ôl, ac yma'r wyf fi, yr awyr a'r ywen,  
a'r cen sy'n rhicynnu'r degawdau a gedwais  
o dan y maen ym Moduan, mwy.

ac o arfer, fe gerfiwyd â chynion ach, enw,  
dyddiadau — y geni, a'r diwedd; wedyn,  
o dan y cyfan mewn llythrennau cain,  
un einioes, ei hyd a'i led, yn gwpled gwag:

mae co hir am y cae hwn  
yn hualu'i siâp fel y wal sych  
a godwyd i gadw ffin y ffald;  
a'r un garwedd i'r haenau o gerrig  
â dwylo'r gŵr a'u daliodd  
yn eu lle, gan eu troi'n llyfn  
â grym ei grefft



## DIWAEL EI WEDD, DUWOL WR, MYNWESOL GYMWYNASWR.

dyma'i gariad, fu'n dod yma i gweirio'r  
blodau am dymor neu ddau nes y dydd pan ddaeth  
un arall i'w dallu

**rhown ar y bedd, pe meddwn allu bardd i droelli byd  
â'i eiriau, bennill soniarus; yn lle atalnodi'r moelni mud  
soniwn am ei gusanau, y gwreichion a'r tonnau  
yn ei enaid; mi sgwennwn amdano  
â'i gap yn gam, a'i oglau, fel yr oglau sydd ar gaeau gwair  
liw'r haf yng Nglan'rafon, y rhesi toredig yno ers tridiau  
a haul sychu'n eu melysu o'r digwmwl asur.**



**yna'r llall yn tanio'r lli,  
yn rhwygo'r dydd ar agor, mwg petrol yn nolur  
y bore'n barod; tyr yr hen dderwen yn ddarnau:  
y tad wedyn a'u teifl  
yn ddyfal i drwmbal ei dryc.**



Hanan Issa (Bardd Cenedlaethol Cymru) mewn sgwrs greadigol gyda Iestyn Tyne, 2023.  
Hanan Issa (National Poet of Wales) in creative conversation with Iestyn Tyne, 2023.

# Cythrudd / Provocation



Ewch allan ar lwybr cyhoeddus sy'n croesi tir fferm, neu dilynwch drywydd y llwybr ar fap OS neu GoogleMaps. Meddyliwch am y tir o dan eich traed neu fys, ac am y bobl sydd wedi igam-ogamu drosto ar hyd yr oesau. Rhowch eich hun yn esgidiau cymeriad go-iawn neu ddychmygol o oes arall, oedd yn nabod union siap y dirwedd hon. Sut fyddai'n ymateb i'r hyn sy'n wahanol, ac i'r hyn sydd yr un fath?

Go out on a public footpath that crosses farmland or follow it on an OS Map or GoogleMaps. Think of the land under your feet or finger, and of the people who have meandered across it through the ages. Put yourself in the shoes of a real or imaginary character from another time, someone who knew the exact shape of this landscape. How would they respond to what has changed, and what remains the same?

# Marva Jackson Lord



Mae Marva yn grewr digidol, artist cyfryngau cymysg a testunol a fagwyd yn Ontario, Canada. Symudodd i'r DU ym 1999 ac mae wedi byw a gweithio yn y Bannau Brycheiniog am dros 20 mlynedd. Mae hi'n gweithio mewn amrywiaeth o gyfryngau oherwydd ddiddordeb arbennig mewn swrealaeth gan ei bod yn berthnasol i fywyd cyfoes yng nghanol, ar y ffiniau ac ymylon tirweddau allanol a mewnol, a'n bydoedd ysbrydol ac emosiynol.

Cychwynnodd Marva ddigwyddiad Mis Hanes Pobl Dduon cyntaf Powys yn 2004. Wedi'i leoli bellach yn Aberllynfi, mae'n parhau i gynhyrchu digwyddiadau barddoniaeth yn y Gelli Gandryll a'r cyffiniau. Mae ei gweithiau *Ecosystem* a *Myfyrdod ar Amlieithrwydd* wedi cael eu harddangos fel rhan o gomisiwn gan Peak Cymru a Pegwn/Casgleb, rhaglen a noddir gan Trafnidiaeth Cymru.

Marva is a digital creator, mixed media and textual artist raised in Ontario, Canada. She moved to the UK in 1999 and has lived and worked in the Brecon Beacons for over 20 years. She works in a range of media because of a particular interest in surrealism as it applies to contemporary life at the centre, on the borders and fringes in the external and internal landscapes, and our spiritual and emotional worlds.

Marva initiated Powys' first major Black History Month event in 2004. Now based in Aberllynfi, she continues to produce poetry in and around Hay-on-Wye. Her works *'Ecosystem and Meditation on Multilingualis'* have been exhibited as part of a commission by Peak Cymru and Pegwn/Casgleb, a program sponsored by Transport for Wales.



'Ecosystem'

# Feeding the Future of Wales



Mae'r syniadau y tu ôl i'r seinwedd hon yn plethu amrywiaeth o safbwyntiau i ragweld dyfodol prynu bwyd yng Nghymru. Cefais fy ysbrydoli gan wersi fy llysfam am bŵer a harddwch cynhyrchu ein bwyd ein hunain, profiad wedi'i lywio gan gof ei nain o effaith y Dirwasgiad Mawr. Anelais at adleisio harmonïau'r dyfodol rhwng traddodiad a thechnoleg, doethineb lleol a dylanwadau byd-eang posibl fel y'u lleisiwyd gan ein cymunedau ein hunain.

Gobeithiaf y bydd gwranddo yn eich gwahodd i archwilio'r posibiladau - o ailfywiogi datblygiad marchnadoedd lleol i sefydlu ffermydd fertigol; o feddyliau am amrywiaeth er mwyn deall sut y gallwn newid ein perthynas â bwyd i gyfnewidfeydd cymunedol sy'n ehangu ein syniadau am y mathau o brydau bwyd y gallwn eu creu ar gyfer ni ein hunain a'n teuluoedd - wrth i ni ystyried sut y byddwn yn prynu bwyd, ac yn ailystyried a chynnal y berthynas agos sydd gennym â'n tir, ein bwyd, a'n treftadaeth.

The ideas behind this soundscape weave together a variety of perspectives to envision the future of buying food in Wales. I was inspired by the lessons from my stepmother about the power and beauty of producing our own food, an experience informed by her grandmother's memory of the impact of the Great Depression. I aimed to echo future harmonies between tradition and technology, local wisdom and possible global influences as voiced by our own communities. I hope that listening invites you to explore the possibilities - from re-invigorating development of local markets to establishing vertical farms, from thoughts on diversity in understanding about ways we can change our relationship to food to community exchanges that expand our ideas about types of meals we can create for ourselves and our families - as we contemplate how we will be buying food, re-evaluating and maintaining the intimate relationship we have with our land, our food, and our heritage.







**“One lady asked if she could pick our courgette leaves. And I said “Well, they’re not going to be very tasty because they’ve got the barbs on the back of them.” And she said, “Oh gosh, no back home, you go to the market and you buy big bunches of it. And we make all sorts of stews and stuff with it and it’s delicious.”**

Delweddau digidol gan Marva Jackson Lord, wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio Midjourney.

Digital images by Marva Jackson Lord, generated using Midjourney.

**“We run a market garden and we’d love to see more market gardens popping up around Wales. I know that there are more coming.”**



**“So, a farmer or a grower that you buy from directly, you will usually find has a strong ethic of quality production and quality control”**



**“...my mother, who was only 20 when she had me, sought a life where she could eat a whole tomato instead of just a slice.”**



# Cythrudd / Provocation



Allwn ni fflipio'r sgript? A allwn ni, yn lle ildio i ofnau, eu harneisio i danio ein creadigrwydd a'n gwytnwch? A allwn drawsnewid ein rhwystredigaeth yn rym sy'n gyrru newid, a throi ein hymdeimlad o ddiffyg grym yn ymdeimlad o rymuso ar y cyd?

Can we flip the script? Can we, instead of succumbing to fears, harness them to fuel our creativity and resilience? Can we transform our frustration into a driving force for change, and turn our sense of powerlessness into a sense of collective empowerment?

# Ways of Working

Copyright © 2023